Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2025 Rhif 370 (Cy. 73)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion (Diwygio a Dirymu) (Cymru) 2025

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn ailddatgan darpariaethau Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion (Diwygio) (Cymru) 2025 (O.S. 2025/260 (Cy. 54)) ("Rheoliadau 2025"). Cywirodd Rheoliadau 2025 wall teipograffyddol yn yr Atodlen ffioedd i Reoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion 2006 (O.S. 2006/2285 ("Rheoliadau 2006").

Mae rheoliad 3 yn dirymu Rheoliadau 2025 er mwyn mynd i'r afael â gwall yn y testun cyfatebol Cymraeg.

Mae rheoliad 2 yn ailddatgan y diwygiadau a wnaed gan Reoliadau 2025.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2025 Rhif 370 (Cy. 73)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion (Diwygio a Dirymu) (Cymru) 2025

*Gwnaed* *19 Mawrth 2025*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* *21 Mawrth 2025*

*Yn dod i rym* *27 Mawrth 2025*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45(1), (2) ac 48(1)(b) ac (c) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

Yn unol ag adran 48(4A)(**3**) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i gyngor gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar y cynnig i wneud y Rheoliadau hyn.

Cynhaliwyd ymgynghoriad fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod

(**1**) 1990 p. 16. Diwygiwyd adrannau 45(1) a (2) ac 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 gan baragraffau 7, 8 ac 20 o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p. 28) ("Deddf 1999").

(**2**) Trosglwyddwyd y swyddogaethau, a oedd gynt yn arferadwy gan "the Ministers", i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf 1999. Mae'r swyddogaethau hynny bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) Mewnosodwyd adran 48(4A) gan baragraff 21 o Atodlen 5 i Ddeddf 1999.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**1**).

### Enwi, cymhwyso a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion (Diwygio a Dirymu) (Cymru) 2025.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 27 Mawrth 2025.

### Diwygio Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion 2006

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion 2006(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 1 (Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion)(**3**), yn y cofnod ar gyfer 'Soliped', yng ngholofn 2, yn lle "0.04287" rhodder "0.4287".

### Dirymu

**3.** Mae Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion (Diwygio) (Cymru) 2025(**4**) wedi eu dirymu.

*Huw Irranca-Davies*
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
19 Mawrth 2025

(**4**) EUR 2002/178, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**1**) O.S. 2006/2285, a ddiwygiwyd gan O.S. 2007/2439, 2008/2999, 2009/2779, 2011/2945, O.S. 2024/967 (Cy. 162).
(**2**) Amnewidiwyd Atodlen 1 gan O.S. 2024/967 (Cy. 162).
(**3**) O.S. 2025/260 (Cy. 54).